Mae achos busnes cadarn a'r cynllun busnes yn hanfodol er mwyn datblygu endid masnachol llwyddiannus. Mae'n hanfodol sicrhau bod y cynllun busnes yn gadarn - gan gynnwys asesu'r galw yn y farchnad am y gwasanaeth, prisio, y buddsoddiad sydd ei angen, y rhagolygon llif arian a'r trefniadau llywodraethu. Yn ddelfrydol, byddai'r achos busnes yn cyfiawnhau adolygiad annibynnol a chyngor cyfreithiol yn enwedig ynghylch goblygiadau o ran y gyfraith a threth. Ond yn ogystal â hyn mae angen rhoi sylw manwl i'r rhagdybiaethau ynghylch perfformiad yn y dyfodol, ac ystyried beth fyddai'r canlyniad pe ceid dirywiad economaidd, er enghraifft. Mae'n bwysig hefyd bod gan lywodraeth leol ddealltwriaeth glir ynghylch lefel y cymhorthdal a'r gwasanaeth cyn ei drosglwyddo, gan ei fod yn anodd cyflwyno'r newidiadau hyn wedyn.

Mae angen i awdurdodau sefydlu mecanweithiau adrodd, atebolrwydd a rheolaeth ar ddechrau unrhyw gyfrwng masnachol newydd, fel eu bod yn ymwybodol o broffil risg pob model cyflenwi, a'r camau sy'n cael eu cymryd i liniaru risg. Mae angen i aelodau feddu ar ddealltwriaeth dda o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwmnïau grŵp neu statws corff atebol, yn enwedig gan fod elfen o risg yn gysylltiedig â chyfyngau masnachol, ac yn aml gall y cysyniad hwn fod yn anodd ei oresgyn.

Mae sicrhau'r arweinyddiaeth gywir a chreu'r diwylliant cywir o ran y dull o weithredu'r gwasanaeth newydd yn allweddol er mwyn llwyddo. Yn sail i'r trefniadau newydd, bydd angen sicrhau ystyriaeth ddigonol o enillion, ffocws cliriach ar anghenion cwsmeriaid a gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol. Cyn gynted ag y bydd cwmni wedi'i sefydlu, bydd yn hollbwysig i gyrff llywodraeth leol gomisiynu a rheoli contractau'n effeithlon er mwyn iddynt wireddu'r buddion yn llawn, a bydd yn rhaid i'r swyddogaeth trosolwg a chraffu barhau i roi sylw iddo hyd ddiwedd y contract.

Er yn dechnegol bod llawer o gwmnïau wedi'u cyfyngu drwy warant, anaml y bydd hi o fudd i awdurdod ganiatáu i'r cwmnïau hyn fethu. Gallai methiant yn sicr beryglu darpariaeth y gwasanaeth yn y tymor byr, ac yn sgil hynny, amharu ar allu'r awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Mae'n annhebygol hefyd y byddai unrhyw ddull arall ar gael ar unwaith er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth yn y rhan fwyaf o achosion. Mewn gwirionedd, mae awdurdodau'n tanysgrifennu risg ariannol (boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol), ac mae baich unrhyw fethiant yn glanio yn y pen draw ar ysgwyddau trethdalwyr lleol.

Y canlyniad mwyaf cyffredin yn yr achosion hyn yw bod y ddarpariaeth gwasanaeth, gan gynnwys y staff a'r asedau, yn cael eu dwyn yn ôl o dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdod, pan ddaw'n glir bod y cynllun busnes yn dechrau methu. Gallai'r gost ychwanegol o ddychwelyd y gwasanaeth yn fewnol fod yn sylweddol. Yn ogystal â hyn, bydd methiant endid masnachol yn aml yn esgor ar ganlyniadau gwleidyddol a chanlyniadau'n gysylltiedig ag enw da. Ond does dim angen i'r canlyniadau hyn fod mor niweidiol â'r disgwyl - felly mae angen i awdurdodau lleol fabwysiadu dull effeithiol o reoli risg os ydynt yn ystyried y ffordd hon ymlaen.

Awgrymir hefyd bod rheolaeth dros ddatblygiad y sefydliadau masnachol hyn yn cael ei cholli, i raddau mwy neu lai, yn dibynnu ar natur yr endid. Mae'r elfen hon o golli rheolaeth yn gysylltiedig â gweithrediad y cwmni, ac felly'r gwasanaeth; fodd bynnag, fodd bynnag, mae'r awdurdod yn cadw rheolaeth fel unig gyfrandaliwr y cwmni drwy'r strwythur llywodraethu.

At ei gilydd, po fwyaf o ryddid masnachol sydd gan endid i dyfu'r busnes, y lleiaf o reolaeth y gall yr awdurdod ei harfer dros natur y twf hwnnw. Gallai cael llai o reolaeth effeithio ar yr awdurdod mewn sawl ffordd - cynnydd yng nghost gwasanaethau dros amser sy'n lleihau'r budd cychwynnol, canlyniadau o safbwynt cyflogaeth leol, neu risg i enw da nad yw'r awdurdod o bosib yn gyffyrddus â hi. Mae'n rhaid pwysleisio felly pa mor bwysig yw dewis y cyfrwng cywir ar gyfer y corff newydd.

Wrth ystyried y cyfleoedd i gynhyrchu incwm masnachol yn enwedig, mae'n rhaid i awdurdodau feddu ar ddealltwriaeth glir o'r farchnad y maent yn bwriadu cystadlu ynddi, ac o'r fantais gymharol sydd ganddynt a fyddai'n eu galluogi i gystadlu â chyrrff masnachol eraill. Ni all pob awdurdod lleol sefydlu cwmnïau a chanddynt yr un uchelgais i werthu ar draws terfynau a thyfu i farchnadoedd cyfagos, ac mae'n rhaid rhoi sylw manwl i'r opsiynau eraill posib fyddai ar gael i ddarpar brynwyr y gwasanaeth. Lle bo cwmnïau newydd wedi'u sefydlu, mae angen iddynt hwythau hefyd oresgyn rhwystrau fel ymgynghori â staff a bodloni telerau ac amodau, a nodi costau cudd fel cyfraniadau at orbenion yr awdurdod.

Wrth sefydlu cwmnïau masnachu awdurdod lleol i gynhyrchu incwm o weithgarwch masnachol, mae angen i awdurdodau ystyried y canlynol yn benodol:

Cyfnodau Allweddol	Materion i'w hystyried
Man cychwyn	<p>Rheoli asedau</p> <p>A ydych yn gwybod pa dir ac eiddo yr ydych yn berchen arnynt?</p> <p>A oes gan eich awdurdod strategaeth Buddsoddi mewn Eiddo neu strategaeth Buddsoddi mewn Asedau?</p> <p>Tir ac adeiladau yw'r asedau mwyaf y mae awdurdod yn berchen arnynt. Gall y rhain fod yn allweddol i unrhyw gynlluniau i gynhyrchu incwm, p'un a ydynt yn asedau nad oes eu heisiau/hangen mwyach a gaiff eu gwerthu'n unigol, neu'n gyfleoedd i ddatblygu. Cael rhestr glir o'ch holl asedau ffisegol yw'r man cychwyn gorau.</p>
	<p>Manteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gennych yn barod</p> <p>Mae defnyddio eich asedau eu hunain yn hytrach na gorfod prynu tir neu adeiladau i ddatblygu cynlluniau yn gwneud synnwyr. Bydd defnyddio eich asedau eich hunain yn fodd i leihau costau a gall gyflymu gwaith i ddatblygu a gweithredu cynlluniau.</p> <p>Gall hyn gynnwys dadansoddiad o'r dulliau gorau i fuddsoddi cronfeydd arian parod. Er eu bod yn rhwyd diogelwch i awdurdodau, gallant gynnig cyfleoedd i fuddsoddi, a chefnogi cynlluniau masnachol.</p>
Adnoddau a safbwynt strategol	<p>Creu cynllun strategol ar gyfer gwaith masnachol</p> <p>Bydd angen llunio strategaeth ar raddfa gorfforaethol ar gyfer cynlluniau i ddatblygu cyfleoedd i gynhyrchu incwm. Bydd angen i'r cynlluniau hyn fod yn gysylltiedig â chynlluniau ariannol cyffredinol yr awdurdod, a chynnwys cyfeiriad ac amcanion clir. Gellir gwneud hyn oddi mewn i fframwaith Cynllun Ariannol Tymor Canolig, neu o fewn dogfen ar wahân.</p>
	<p>Alinio gwaith â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</p> <p>Mae Cynlluniau Llesiant yn creu cyfle delfrydol i awdurdodau alinio datblygiad cynlluniau masnachol â strategaethau corfforaethol. O fewn y Ddeddf, mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn cynnwys cynllunio hirdymor, integreiddio a chydweithio, y mae pob un ohonynt yn elfennau allweddol er mwyn datblygu cynlluniau masnachol. Ar gyfer llawer o gynlluniau, bydd angen cydweithio â phartneriaid allanol, a chefnogaeth y partneriaid hynny, y mae rhai ohonynt o bosib eisoes yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.</p>

Cyfnodau Allweddol	Materion i'w hystyried
<p>Adnoddau a safbwynt strategol (parhad)</p>	<p>Sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau mewnol</p> <p>Mae awdurdodau'n debygol o gynnwys timau caffael a chyfreithiol a staff a chanddynt brofiad o reoli prosiectau. Serch hynny, yn ôl profiad awdurdodau sy'n rheoli cynlluniau masnachol mae angen penodi unigolyn y gyflawni'r rôl honno ar contract amser llawn a chael gwybodaeth arbenigol er mwyn i'r cynlluniau hynny lwyddo.</p> <p>Ar gyfer y broses gyfan, mae angen profiad a sgiliau rheoli prosiect, gan ddechrau drwy lunio'r achos busnes, rhoi gwaith contract allan ar dendr a datblygu a rheoli'r cynllun yn barhaus.</p> <p>Efallai y bydd rhai cynlluniau'n cynnwys gwaith nad oes gan yr awdurdod unrhyw brofiad blaenorol ohono, neu efallai y bydd eu natur gymhleth neu eu maint y tu hwnt i'w gapasiti rheoli.</p> <p>Os yw awdurdodau am sicrhau cymaint o incwm ag sy'n bosibl o'u cynlluniau masnachol, mae'n rhaid iddynt fuddsoddi mewn aelodau newydd o staff (neu dimau o staff) neu gynyddu sgiliau staff presennol, a'u rhyddhau o'u cyfrifoldebau blaenorol, er mwyn creu'r wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i reoli cynlluniau masnachol.</p>
<p>Meddylfryd y sefydliad</p>	<p>Mae rheoli risg yn elfen bwysig yn nyluniad a rheolaeth gwasanaethau awdurdod lleol. Y mae yr un mor berthnasol wrth ddatblygu cynlluniau masnachol. Er na ellir fyth sicrhau bod cynllun yn rhydd yn gyfan gwbl rhag unrhyw risg, gellir lliniaru'r risg honno a'i lleihau i lefel dderbyniol drwy gynllunio'n dda.</p> <p>Wrth ddatblygu cynlluniau masnachol, un o'r ffactorau pwysicaf yw meddylfryd yr awdurdod. O edrych ar brofiad awdurdodau sydd wedi datblygu cynlluniau masnachol, elfen holl bwysig er mwyn datblygu cynlluniau llwyddiannus fu sicrhau cefnogaeth aelodau ac uwch swyddogion o'r cychwyn cyntaf.</p> <p>Bydd ymrwymo symiau o arian, symiau mawr mewn rhai achosion, boed hynny o'r cronfeydd neu drwy fenthyciadau, ar gyfer cynlluniau na fydd yn creu elw am flynyddoedd yn anathema i lawer. Mae'n rhaid i swyddogion sy'n dylunio cynlluniau masnachol ystyried bod sicrhau cefnogaeth y bobl hyn yn un o'r nodau cyntaf y dylid eu cyflawni.</p>
<p>Y Tymor Hir</p>	<p>Mae llawer o gynlluniau masnachol yn gynlluniau hirdymor, ac nid ydynt yn creu gwarged am flynyddoedd. Gall ymrwymo i gynlluniau o'r fath, a neilltuo symiau mawr o arian ymlaen llaw, costau cyfalaf yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, fod yn sefyllfa anodd ei derbyn. Bydd yn rhaid i awdurdodau dderbyn y costau sydd i'w talu ymlaen llaw, a gallu esbonio'u penderfyniad i fuddsoddi mewn gweithgarwch sydd y tu hwnt i weithgarwch craidd yr awdurdod wrth y cyhoedd ac wrth eraill, gan bwysleisio'r budd hirdymor.</p> <p>Mae angen i aelodau hefyd ddeall y byddant yn cytuno ar gynlluniau fydd yn creu elw ond ar ôl iddynt ymadael â'u swyddi, gan olygu na fyddant yn derbyn unrhyw glod am eu penderfyniadau - cysyniad sydd yn anodd i rai Aelodau ei dderbyn.</p> <p>Yn ogystal â hyn, efallai y bydd awdurdodau yn eu cael eu hunain yn gweithredu mewn meysydd newydd wrth ddatblygu cynlluniau masnachol. Mae'n rhaid iddynt ddeall y gall gymryd peth amser i greu enw da ymhlith sefydliadau'r sector preifat, fel chwaraewyr newydd.</p>

Atodiad 4 – Gwariant gros, incwm a chost net darparu gwasanaethau unigol gan awdurdodau Cymru yn 2008-09 a 2014-15

Maes lle dadansoddwyd data ariannol - 2008-09	Gwariant gros	Incwm	Cost net y gwasanaeth	Incwm fel cyfran o wariant
Cludiant o'r cartref i'r ysgol - Ysgolion Cynradd	£24,653,300	£191,770	£24,461,530	0.7%
Cludiant o'r cartref i'r ysgol - Ysgolion Uwchradd	£55,485,400	£537,593	£54,947,807	1.0%
Cludiant o'r cartref i'r ysgol - Ysgolion Arbennig	£27,492,900	£187,250	£27,305,650	0.7%
Cludiant o'r cartref i'r coleg	£10,492,100	£986,912	£9,505,188	9.4%
Addysg Oedolion	£30,727,800	£5,683,642	£25,044,158	18.5%
Cyfanswm ysgol	£2,797,900,700	£80,966,263	£2,716,934,437	2.9%
Parcio cerbydau	£21,462,200	£26,369,645	-£4,907,445	122.8%
Tocynnau Teithio Rhatach	£66,142,700	£323,660	£65,819,040	0.5%
Meysydd awyr, porthladdoedd a chyfleusterau toll	£17,780,000	£4,744,321	£13,035,679	26.7%
Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Prydau	£11,502,200	£3,928,236	£7,573,964	34.1%
Gwasanaethau Diwylliannol a Gwasanaethau Cysylltiedig	£491,923,000	£100,858,376	£391,064,624	20.5%
Gwasanaethau mynwent, amlosgi a chorffdy	£22,419,000	£12,727,421	£9,691,579	56.7%
Diogelwch bwyd lechyd yr Amgylchedd	£10,727,200	£405,621	£10,321,579	3.8%
Gwasanaethau Gwastraff	£275,310,100	£42,285,428	£233,024,672	15.4%
Rheoli Adeiladu	£13,019,900	£7,821,587	£5,198,313	60.0%
Gwasanaethau Rheoli Datblygu	£31,428,100	£13,747,920	£17,680,180	43.7%
Pridiannau Tir Lleol	£2,810,100	£2,718,867	£91,233	96.7%
Genedigaethau, priodasau a marwolaethau	£6,639,400	£3,289,641	£3,349,759	49.5%

Maes lle dadansoddwyd data ariannol - 2014-15	Gwariant gros	Incwm	Cost net y gwasanaeth	Incwm fel cyfran o wariant
Cludiant o'r cartref i'r ysgol - Ysgolion Cynradd	£26,649,700	£406,000	£26,243,700	1.5%
Cludiant o'r cartref i'r ysgol - Ysgolion Uwchradd	£58,900,500	£1,005,000	£57,895,500	1.7%
Cludiant o'r cartref i'r ysgol - Ysgolion Arbennig	£30,654,500	£1,171,079	£29,483,421	3.8%
Cludiant o'r cartref i'r coleg	£10,907,700	£1,551,193	£9,356,507	14.2%
Addysg Oedolion	£34,504,000	£7,324,377	£27,179,623	21.2%
Cyfanswm ysgolion	£2,753,187,000	£121,584,210	£2,631,602,790	4.4%
Parcio cerbydau	£21,815,800	£33,278,462	-£11,462,662	152.0%
Tocynnau Teithio Rhatach	£70,721,000	£228,741	£70,492,259	0.3%
Meysydd awyr, porthladdoedd a chyfleusterau toll	£10,472,400	£5,397,824	£5,074,576	51.5%
Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Prydau	£7,728,900	£3,353,717	£4,375,183	43.4%
Gwasanaethau Diwylliannol a Gwasanaethau Cysylltiedig	£367,682,200	£104,872,510	£262,809,690	28.5%
Gwasanaethau mynwent, amlosgi a chorffdy	£17,060,500	£16,060,636	£999,864	94.1%
Diogelwch bwyd lechyd yr Amgylchedd	£12,560,300	£415,108	£12,145,192	3.3%
Gwasanaethau Gwastraff	£287,056,500	£37,871,039	£249,185,461	13.2%
Rheoli Adeiladu	£10,604,800	£7,046,580	£3,558,220	66.4%
Gwasanaethau Rheoli Datblygu	£27,517,900	£16,016,265	£11,501,635	58.2%
Pridiannau Tir Lleol	£3,033,500	£3,247,332	-£213,832	107.0%
Genedigaethau, priodasau a marwolaethau	£6,987,900	£4,907,654	£2,080,246	70.2%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Alldro Refeniw a gyhoeddwyd ar StatsCymru yn 2008-09 a 2014-2015 fel y cawsant eu diwygio yn dilyn archwiliad annibynnol Swyddfa Archwilio Cymru o'r ffurflenni.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

PWYLLGOR ARCHWILIO

6^{ed} O IONAWR 2017

Cofnodion gweithgorau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Archwilio

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

- Bod y Pwyllgor yn derbyn y cofnodion.

Rhesymau:

- Er gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor.
- Mae Amodau Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn mynnu ei fod yn derbyn cofnodion y Grŵp Rheoli Risg ynghyd â gwybodaeth ynghylch trefniadau Rheoli Corfforaethol a Chyllidol.

Ymgynghorwyd â'r pwyllgor craffu perthnasol:	AMHERTHNASOL
Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad:	AMHERTHNASOL
Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad:	AMHERTHNASOL

Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y Portffolio:
Cyng. David Jenkins (Adnoddau)

Y Gyfarwyddiaeth: Gwasanaethau Corfforaethol	Swyddi:	Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau E-bost:
Enw Pennaeth y Gwasanaeth: Phil Sexton	Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael	01267 246217 psexton@sirgar.gov.uk
Awdur yr adroddiad: Helen Pugh	Rheolydd Archwilio a Risg	01267 246223 hlpugh@sirgar.gov.uk

EXECUTIVE SUMMARY

AUDIT COMMITTEE

6th JANUARY 2017

Minutes of working groups relevant to the Audit Committee

This item provides members with recent minutes of supporting Governance Groups, for information

The following minutes are attached:

1. Risk Management Steering Group – 14th September 2016
2. Grants Panel – 13th September 2016

DETAILED REPORT ATTACHED?

YES

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.

Signed: Phil Sexton Head of Audit, Risk & Procurement

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
YES	NONE	NONE	NONE	NONE	NONE	NONE

1. Policy, Crime & Disorder and Equalities – In accordance with the Committee’s Terms of Reference.

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:

Signed: Phil Sexton Head of Audit, Risk & Procurement

- 1. Scrutiny Committee – N/A**
- 2. Local Member(s) – N/A**
- 3. Community / Town Council – N/A**
- 4. Relevant Partners – N/A**
- 5. Staff Side Representatives and other Organisations – N/A**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

THESE ARE DETAILED BELOW:

Title of Document	File Ref No. / Locations that the papers are available for public inspection
Strategic Audit Plan 2016-19	AC 28-03-16 Internal Audit Unit
Audit Committee Terms of Reference	Internal Audit Unit

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

RISK MANAGEMENT STEERING GROUP

Minutes of Meeting held at Conservatory East, Building 8, Parc Dewi Sant Wednesday, 14th September 2016.

Members Present:			
Phil Sexton (Chair)	Corporate Services	Head of Audit, Risk & Procurement	PS
Cllr David Jenkins	Executive Board Member (Corporate Services)	Executive Board Risk Champion	DJ
Jonathan Fearn	Environment	Chair of Property & Liability Risks Working Group	JF
Stephen Pilliner	Environment	Chair of Transport Risks Working Group	SP
Helen Pugh	Corporate Services	Risk Champion	HLP
Stephanie R Williams	Education & Children	Risk Champion	SRW
Richard Davies	Communities	Principal Officer	RD
Adryan Jones	Chief Executive's	Health & Safety Advisor	AJ
Jenna Smith	Marsh UK Ltd	External Risk Partner	JS
Julie Standeven	Corporate Services	Principal Risk Officer	EJS

Item No	Subject	Action
1.	Apologies Lyn Walters – Communities Risk Champion Heidi Font – Chief Executive's Risk Champion Richard Stradling – Communities (Leisure) Risk Champion Alan Howells – Environment Risk Champion	
2.	Minutes of Last Meeting The Minutes of the Risk Management Steering Group Meeting held at Parc Dewi Sant on Wednesday, 13th April 2016, were confirmed as a true record.	
3.	Matters arising from Risk Management Steering Group Minutes.	
3.1	Risk Management & Business Continuity Strategy PS advised that a new strategy is being developed for 2017-2020. A review of the Council's Risk Management processes is to be completed by its Liability Insurers and the outcomes will be reflected in the new strategy.	

4.	Minutes of Property & Liability Risks Working Group Meeting – 31st August 2016 The Minutes were noted.	
4.1	Matters arising from Property & Liability Risks Working Group Minutes	
4.1.1	Security & Fire Alarms JF advised that an Alarm Monitoring Review is underway and following actions agreed :- <ul style="list-style-type: none"> • Risk Matrix Exercise to be completed • Discuss with the Council’s Property Insurers the minimum specification required for approved alarm receiving centres 	
4.1.2	School Fencing JF advised that a Fencing Framework is being developed by Property.	
5	Minutes of Transport Risks Working Group Meeting – 6th September 2016 The minutes were noted.	
5.1	Matters arising from Transport Risks Working Group Minutes	
5.1.1	Managing Approach to Alcohol & Substance Misuse AJ advised that the Council’s Alcohol and Substance Misuse Policy is under review. Update to be provided at next meeting.	AJ
5.1.2	MV Statistics – Claims & Complaints SP advised that the new refuse fleet to be introduced soon and training is underway to upskill drivers.	
6.	The Insurance Act 2015 JS advised that The Insurance Act 2015 came into force in August 2016 and replaced a law that had been in place since 1906. A key change for the Council will be the imposition of a new duty to change how information is verified by Senior Officers prior to it being passed on to Insurers.	
7.	Bids for Financial Assistance	
7.1	E&C – Old Road School This bid related to the provision of a secure foyer to the main school building. It was agreed that the Departmental Bid for £8,250 (50% of the estimated gross cost of £16,500) be approved, subject to confirmation of the costs by the Area Senior Inspector – Property Division (Environment).	
7.2	E&C – Pwll C P School This bid related to the provision of boundary fencing and gate access at Pwll C P School. It was agreed that the Departmental Bid for £9,000 (50% of the estimated gross cost of £18,000) be approved.	
7.3	E&C – Ysgol Y Castell, Kidwelly This bid related to the provision of electronic, fob-controlled door security system at Ysgol Y Castell. It was agreed that the Departmental Bid for £1,593 (50% of the estimated gross cost of £3,185) be approved.	

7.4	<p>E&C – St John Lloyd This bid related to the provision of security fencing on the south eastern boundary of the School. Areas for concern had also been identified at the neighbouring school site – St Mary’s Primary School. It was agreed that a decision in relation to this bid be deferred subject to investigating the possibility of submitting a joint bid with St Mary’s School to ensure best value for money.</p>	
7.5	<p>E&C – Dafen Primary School This bid related to the provision of fencing and gate access at Dafen Primary School. It was agreed that the Group were unable to approve or reject this bid based on the information provided to date. The Council’s Health & Safety Officer to liaise with the Area Senior Inspector (Property) to investigate and report back to the Group.</p>	
7.6	<p>E&C – Johnstown Primary School This bid related to the provision of safeguarding and security measures to include :- Boundary fencing and gate access External doors incorporating electronic fob controlled access Signage It was agreed that the Departmental Bid for £11,750 (50% of the estimated gross cost of £23,500) be approved.</p>	
7.7	<p>ENV – Highways Depot, Unit 10, Trostre This bid related to the provision of security improvements to the Highways Depot at Unit 10, Trostre. It was agreed that the Departmental Bid for £900 (50% of the estimated gross cost of £1,800) be approved, subject to clarification that the works comply with the Council’s CCTV Policy.</p>	PS
8.	<p>Any Other Business It was agreed that a financial report be provided at the next Risk Management Steering Group, detailing the bids approved to date for the financial year 2016/17</p>	
9.	<p>Next Meeting Date to be advised</p>	

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**MINUTES OF THE GRANTS PANEL MEETING HELD ON
13th SEPTEMBER 2016 IN THE COMMITTEE ROOM 2, 3 SPILMAN
STREET**

DATE: 14th September 2016

PRESENT: Owen Bowen, Interim Head of Financial Services
Helen Pugh, Audit & Risk Manager
Rhian Phillips, European Programmes Manager
Delyth Thomas, Grants Compliance Officer (GCO)
Simon Davies, Chair of PWG, Education & Children's Services
Les James, Chair of PWG, Community Services
Julie Owens, Financial Audit Team Leader, Wales Audit Office (WAO)

APOLOGIES: Stuart Walters, Interim Economic Development Manager
Helen Morgan, Interim Economic Development Manager
Alan Howells, Chair of PWG, Environment

	SUBJECT	ACTION
1.0	<p><u>Minutes of the last meeting</u></p> <ul style="list-style-type: none"> The minutes were agreed. 	
2.0	<p><u>Matters Arising</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Responses are still outstanding from the chairpersons of the PWGs to the detailed report provided by WAO for the Certification of Grants & Returns 2014/15. DT to follow up initially and refer any non-responses to OB Advice has been provided by the Legal Section on how the Authority should manage document retention in order to meet both the WG and the Authority's retention requirements. Each project will need to be considered on a case-by-case basis. When the Authority's deadline for document retention has been reached then there is a requirement to contact WG for approval to destroy them. Email to be sent to the chairpersons of the PWGs and the Group Accountants to take to their respective DMT meetings. WAO to arrange a meeting with the GCO to review the Joint Protocol for the Certification of Grant Claims and Returns. It is intended that the protocol be streamlined before final agreement by the Authority. 	<p>OB/DT/ SW/AH</p> <p>DT</p> <p>JO/OB</p>
3.0	<p><u>Wales Audit Office - Update</u></p> <ul style="list-style-type: none"> An update was received from WAO on the audits of grants/returns for the financial year 2015/2016: 	<p>Tudalen 187</p>

	SUBJECT	ACTION
	<ul style="list-style-type: none"> ○ The audit of the Pooled Budgets Return to be reviewed and signed off by end of September ○ Audit work has started on the Housing Benefit Return and NNDR Return ○ The audit of the Teachers Pension Return and the Communities First Grant Claim is due to commence in October. • All other grants & returns for 2015/2016 are due to be submitted by the end of September 2016. WAO to compile a timetable for the audit of each grant/return with an aim to complete all audits by the beginning of December 2016. • The Certification Instructions that detail the testing requirements for each grant and return have been forwarded by WAO to the GCO. These have been forwarded to the respective Project Managers. 	JO
4.0	<p><u>Internal Audit (IA) - Update</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Pembrokeshire County Council (PCC), as the lead Authority on ERW, has not required an audited claim for the Education Improvement Grant (EIG) for the 1st quarter of 2016/2017. Audited claims are required for the other quarters. • The audit of the Pupil Deprivation Grant for 2015/16 is due to be completed by end of November 2016. However, the Authority is still waiting for testing instruction from PCC, being the lead Authority on ERW. • The audit of the grant for the Regional Co-ordinator for Supporting People is currently with IA. A meeting is due to be undertaken to start the audit process on the main Supporting People Grant, which is due to be completed by the end of September. • Final audit reports are still to be issued for the following grants: <ul style="list-style-type: none"> ○ Pooled Budgets ○ Major Repairs Allowance ○ NRW Grants – Wales Coastal Path, Rights of Way Improvement Programme & Joint Working Programme ○ Building our Heritage 	

	SUBJECT	ACTION
	<ul style="list-style-type: none"> Financial Procedures Rules are currently being redrafted. Revised draft version to be forwarded to Grants Panel members to provide feedback on any grant related issues. Revised Procurement Rules are due to be submitted to CMT and Audit Committee for final sign off. 	HP
5.0	<p><u>Project Working Groups – Update</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Minutes of PWG meeting were circulated to Grants Panel members for : <ul style="list-style-type: none"> Community Services – 5/8/16 Chief Executives & Corporate Services – 21/3/16 Chairpersons of each of the PWGs to ensure that all projects are covered within the remit of the PWG meetings with a reminder that feedback to the meetings are made on both revenue and capital projects and cover not only financial information but project progress and output information, where applicable. The Grants Register, which records the grant funded projects per service area, for 2016/17 is to be circulated to the chairpersons of the PWGs. 	<p>Chair persons of PWGs</p> <p>DT</p>
6.0	<p><u>Action Plan following LSB Review</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Following the report on the lessons learnt exercise undertaken for the Carmarthenshire Local Service Board (LSB) funded projects an action plan is to be presented in the next meeting 	RP
7.0	<p><u>Approval process for the award of grants to Third Parties</u></p> <ul style="list-style-type: none"> A request to be made to the Assistant Chief Executive to present a report to CMT for consideration, in relation to the approval process of grants awarded to Third Parties in conjunction with the current Third Party Grant TIC Review. 	OB

	SUBJECT	ACTION
8.0	<p><u>Update re projects under New Funding Programmes</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • The Authority has submitted applications to the WG Building for the Future Programme. Approval is not expected until April 2017. • The application to Visit Wales for the Pendine Visitor Attractor Project is not expected to be approved until April 2017. • The application to the WG's Sustainable Management Scheme for the Tywi Valley Cycle way was not successful. • The first stage of the Business Plan is currently being developed for the Celtic Routes project under the Ireland/Wales Co-operation Programme. Total project costs are estimated at £1.6m. The Authority is the lead with three partners in Ireland, Ceredigion and Pembrokeshire Coast National Park. The submission needs to be made in Euros and as CCC is the lead, there could be a risk due to possible exchange rate variations when reimbursing the Welsh partners. 	
9.0	<p><u>Grant Income Outstanding (Convergence)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • An email has been sent to PCC in respect of the final grant balance of £7.5k for Materials Efficiency. The Authority is waiting for a response. • The Authority is currently in discussion with WEFO in respect of the final grant payment by WEFO for the Property Development Fund project. The Authority has calculated an underpayment of £11k • There are outstanding issues that need to be finalised in respect of the Coastal project. Head of Financial Services to review the outstanding issues with the Services manager and the GCO. 	<p>SW</p> <p>OB</p>

	<u>SUBJECT</u>	
10.0	<p><u>AOB</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • The Grants Register for 2016/2017 was circulated to members of Grants Panel. • Themes that have arisen in recent audits are to be quantified for discussion at the next Grants Panel meeting: <ul style="list-style-type: none"> ○ Method of Property Services Charges ○ Coding Structure in line with grants ○ Signing of contracts/agreements with delivery partners following award of grant 	All
11.0	<ul style="list-style-type: none"> • Date of next meeting – 16th November 2016 2:00pm in the Resources Conference Room, County Hall 	

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PWYLLGOR ARCHWILIO

Dydd Gwener, 30 Medi 2016

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd C.P. Higgins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

J.S. Edmunds (yn lle W.G. Thomas), H.A.L. Evans, J. James, J.D. James, E.G. Thomas a D.E. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol;
I. Jones, Pennaeth Hamdden;
P. Sexton, Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael;
C. Daniels, Uwch-reolwr Chwaraeon a Hamdden;
J. Gravelle, Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw;
H. Pugh, Rheolwr Archwilio a Risg;
O Bowen, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol;
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
L. Walters, Senior Business Support Manager (Social Care);
C. Jones, Pen-swyddog Caffael;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 10.00 yb - 12.20 yp.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A.G. Morgan, G.B. Thomas ac W.G. Thomas.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17. Roedd Rhan A o'r adroddiad yn rhoi adroddiad cynnydd ynghylch Cynllun Archwilio 2016/17 a matrices sgorio argymhellion a Rhan B yn rhoi crynodeb o'r adroddiadau terfynol a gwblhawyd yn 2015/16 mewn perthynas â systemau ariannol allweddol (Ebrill 2015 hyd yma).

PENDERFYNWYD bod y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Archwilio Mewnol 2016/17 yn cael ei derbyn, at ddibenion monitro.

4. **DIWEDDARU'R SIARTER ARCHWYLIO MEWNOL 2016/19**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Siarter Archwilio Mewnol 2016/19 a oedd wedi'i datblygu gan yr Uned Archwilio Mewnol ac a oedd yn rhoi manylion am y fframwaith y mae'r Uned yn gweithredu ynddo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol 2016/19.

5. **ADOLYGIAD Y PWYLLGOR ARCHWYLIO**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn crynhoi canlyniadau sesiwn adolygu diweddar i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd i 'adolygu maes gorchwyl y Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn darparu'r hyn a ddisgwylir ganddo' yn unol â chynnig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwelliant yn deillio o'r Aseiad Corfforaethol diwethaf. [Nodwyd bod Mrs. Julie James, Aelod Allanol â Phleidlais, wedi bod yn bresennol yn y sesiwn hefyd.]

PENDERFYNWYD nodi'r canlyniadau a gytunwyd.

6. **BLAENRHAGLEN GWAITH 2016/17**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Flaenraglen Waith Flynyddol a oedd yn rhoi manylion am yr eitemau disgwyliedig ar gyfer yr agenda yng nghylch cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio 2016/17.

PENDERFYNWYD derbyn y Flaenraglen Waith.

7. **DIWEDDARU CYNLLUN GWEITHREDU CYFLEUSTERAU ARFORDIROL**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad cynnydd ynghylch rhoi'r Cynllun Gweithredu Cyfleusterau Arfordirol ar waith. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith oedd wedi'i wneud hyd yn hyn gan y tîm Cyfleusterau Arfordirol i barhau i wella ei brosesau fel y nodwyd gan y Rheolwr Archwilio a Risg yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22^{ain} Mawrth, 2016.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Hamdden y cydnabyddir yr angen i fuddsoddi yn y parc a bod y Prif Gynllun wedi cael ei gefnogi gan y Bwrdd Gweithredol;
- Amlinellodd y Pennaeth Hamdden y mesurau sy'n cael eu cymryd i ddatrys y problemau o ran arlwyyo yn y parc a oedd yn cynnwys caffi estynedig yn y siop sgïo dros dro yn ystod y gwaith adnewyddu;
- Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y mesurau a'r gweithdrefnau priodol yn cael eu rhoi ar waith i roi sylw i'r cynnydd yn y llif arian yn y parc ers sefydlu'r maes carafanau.

PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran y Cynllun Gweithredu Cyfleusterau Arfordirol a bod y Pwyllgor yn cael gwybod am ddatblygiadau.

8. RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT DIWYGIEDIG

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y fersiwn diwygiedig o'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau a oedd yn rhoi ystyriaeth i nifer o newidiadau i reoliadau caffael a threfniadau caffael. Roedd y diwygiadau wedi'u gwneud yn sgil ymgynghori'n fanwl â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys gwasanaethau cyfreithiol ac archwilio, er mwyn diweddarau'r rheolau a sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, a gafodd eu trosi i gyfraith y Deyrnas Unedig ym mis Chwefror 2015.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddid yn symud tuag at broses dendro electronig drwy'r uned gaffael ganolog a fyddai'n sicrhau mwy o waith monitro.

Bu i'r aelodau groesawu'r ffaith fod y gweithdrefnau contractau wedi eu cryfhau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r fersiwn diwygiedig o'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau a diolch i'r holl staff a fu'n gysylltiedig â'r gwaith.

9. YSTYRIED Y DOGFENNAU CANLYNOL PARATOWYD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU:-

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Richard Stradling a Mr Jason Garcia o Swyddfa Archwilio Cymru.

9.1. ADRODDIAD DATGANIADAU ARIANNOL - CYNGOR SIR GAERFYRDDIN

Atgoffwyd y Pwyllgor fod yr aelodau yn y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 8^{fed} Gorffennaf 2016 wedi cael Datganiad Cyfrifon 2015/16 yr Awdurdod. Ar sail hynny, yr oedd yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal archwiliad a rhoi barn am gywirdeb a thegwch y Datganiad.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr adroddiad manwl lle roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi barnu nad oedd dim camddatganiadau wedi eu clustnodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y materion mwy arwyddocaol oedd yn deillio o'r archwiliad a oedd eisoes wedi cael eu trafod â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. Fel canlyniad roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod cyn gynted ag y deuai'r Llythyr Sylwadau i law.

O ran pryderon a godwyd yn flaenorol ynghylch yr angen i wella archwiliadau sicrhau ansawdd mewnol ym mhrosesau prisio yr Awdurdod dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod gweithdrefnau diwygiedig bellach ar waith.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'i staff am eu gwaith dyfal a'u hymrwymiad yn paratoi cyfrifon y Cyngor Sir.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

9.2. ADRODDIAD DATGANIADAU ARIANNOL - CRONFA BENSIWN DYFED

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddwyd ger ei fron, sef adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch yr archwiliad a gynhaliwyd o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn ystyried a oedd y datganiad ariannol yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed ar 31ain Mawrth, 2016 a'i hincwm a'i gwariant yn ystod y flwyddyn honno.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr adroddiad manwl lle roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi barnu nad oedd dim camddatganiadau wedi eu clustnodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro. Roedd nifer o fân gamddatganiadau wedi'u cywiro gan y rheolwyr. O ganlyniad roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamedd ynghylch datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed cyn gynted ag y deuai'r Llythyr i law.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

9.3. DIWEDDARIAD PWYLLGOR ARCHWILIO CYNGOR SIR GAERFYRDDIN - MEDI 2016.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith archwilio oedd i'w wneud/wedi'i wneud ynghylch yr Awdurdod gan Swyddfa Archwilio Cymru ers y cyfarfod diwethaf.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

9.4. FFURFLEN BLYNYDDOL 2015-16 HARBWR PORTH TYWYN - ADRODDIAD ARCHWILIAD ALLANOL

Cafodd y Pwyllgor lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a oedd y nodi ei fod wedi cwblhau ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r datganiad cyfrifon blynyddol yn ymwneud â gweithgareddau harbwr ar gyfer Awdurdod Harbwr Porth Tywyn am y flwyddyn oedd yn gorffen ar 31 Mawrth 2016 yn unol â gofynion Deddf Harbyrau 1964 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

PENDERFYNWYD derbyn y llythyr.

9.5. TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAD - ARCHWILIAD CYNLLUN GWELLIANT 2016-17 AC ASESIAD PERFFORMIAD 2015-16 CYNGOR SIR GAERFYRDDIN

PENDERFYNWYD nodi'r Dystysgrif Cydymffurfiaeth a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn sgil yr Archwiliad o Gynllun Gwella 2016-17 ac Aseiad o Berfformiad 2015-16 y Cyngor ar y cyd.

9.6. MENTER TWYLL GENDLAETHOL 2014-15

Roedd yr adroddiad uchod wedi'i ddsbarthu i'r Pwyllgor a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol o bosibl i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad ddwywaith y flwyddyn ynghylch unrhyw ymchwiliadau i dwyll a oedd wedi eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin yn gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

10. LLYTHYR YN CYFLWYNO SYLWADAU I'R SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - CYNGOR SIR GAERFYRDDIN

Hysbyswyd y Pwyllgor ei bod yn ofynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r Datganiad Safonau Archwilio (SAS440 – Sylwadau Rheolwyr), fod Swyddog Adran 151 yr Awdurdod, yn llunio Llythyr Sylwadau yn flynyddol, a bod y llythyr hwn yn cael ei lofnodi gan y Swyddog hwnnw a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Ar ben hyn, roedd yn ofynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru fod y Pwyllgor oedd yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon o dan Reoliad 8 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn cydnabod ymateb y Swyddog Adran 151 yn ffurfiol.

PENDERFYNWYD cydnabod y Llythyr Sylwadau i Swyddfa Archwilio Cymru a gafodd ei lunio gan y Swyddog Adran 151.

11. YMHOLIADAU ARCHWILIO I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLI - CYNGOR SIR GAERFYRDDIN

Roedd adroddiad wedi cael ei ddsbarthu i'r Pwyllgor a oedd yn rhoi manylion am ymatebion i geisiadau a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru [WAO] i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio er mwyn i Swyddfa Archwilio Cymru fodloni'r gofynion a nodir yn y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio i fynd ati'n ffurfiol i gael ystyriaeth a dealltwriaeth yr Awdurdod, sydd wedi eu cofnodi, ynghylch nifer o feysydd llywodraethu sy'n effeithio ar archwilio datganiadau ariannol. Roedd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i reolwyr y Cyngor a'r 'rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu' (y Pwyllgor Archwilio). Byddai'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn llywio dealltwriaeth Swyddfa Archwilio Cymru o'r Cyngor a'i brosesau busnes ac yn cefnogi gwaith Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu barn archwilio ynghylch datganiadau ariannol 2015-16.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ymatebion i geisiadau a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio fel y nodwyd yn yr adroddiad.

12. LLYTHYR YN CYFLWYNO SYLWADAU I'R SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - CRONFA BENSIWN DYFED

Hysbyswyd y Pwyllgor ei bod yn ofynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r Datganiad Safonau Archwilio (SAS440 – Sylwadau Rheolwyr) fod Swyddog Adran 151 yr Awdurdod yn llunio Llythyr Sylwadau yn flynyddol, a bod y llythyr hwn yn cael ei lofnodi gan y Swyddog a enwid uchod a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal, roedd yn ofynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru fod y Pwyllgor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon o dan Reoliad 8 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn cydnabod yr ymateb yn ffurfiol.

PENDERFYNWYD cydnabod y Llythyr Sylwadau i Swyddfa Archwilio Cymru a gafodd ei lunio gan y Swyddog Adran 151.

13. YMHOLIADAU ARCHWILIO I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLI - CRONFA BENSIWN DYFED

Roedd ymatebion yr Awdurdod i Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch nifer o feysydd llywodraethu sydd wedi effeithio ar archwilio'r datganiadau ariannol, wedi cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor. Roedd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i reolwyr Cronfa Bensiwn Dyfed a'r 'rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu' (y Pwyllgor Archwilio). Byddai'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn llywio dealltwriaeth Swyddfa Archwilio Cymru o Gronfa Bensiwn Dyfed a'i phrosesau busnes ac yn cefnogi'i waith i ddarparu barn archwilio ynghylch datganiadau ariannol 2015-16.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ymatebion i'r ceisiadau a gyflwynwyd i'r rheolwyr ac i'r Pwyllgor Archwilio.

14. CYFRIFLEN CYNGOR SIR GAERFYRDDIN 2015/16

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, cafodd Datganiad Cyfrifon 2015/16 a oedd yn ymwneud â Chyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Bensiwn Dyfed ac a oedd wedi'i archwilio, ei roi gerbron y Pwyllgor i'w gymeradwyo. Roedd y Datganiad yn dwyn ynghyd holl drafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn am y flwyddyn, a hefyd roedd yn rhoi manylion asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn fel yr oeddent ar 31^{ain} Mawrth, 2016.

Unwaith eto mynegodd aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogiad i'r holl swyddogion a fu'n gysylltiedig â llunio cyfrifon rhagorol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2015/16 (Cyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Bensiwn Dyfed) a oedd wedi'i archwilio.

15. DATGANIAD ARIANNOL HARBWR PORTH TYWYN 2015/16

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, derbyniodd y Pwyllgor i'w gymeradwyo Ddatganiad Cyfrifon 2015/16 wedi'i archwilio mewn perthynas â Harbwr Porth Tywyn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo datganiad cyfrifon harbwr porth tywyn 2015-16 a oedd wedi'i archwilio.

16. ADRODDIAD CRYNO YNGHYLCH CWBLHAU CYNLLUNIAU A GYLLIDWYD GAN YR UNDEB EWROPEAIDD O DAN Y RHAGLEN GYDGYFEIRIO (2017-2013)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r cynlluniau a gwblhawyd yn Sir Gaerfyrddin a gyllidwyd yn allanol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o dan y Rhaglen Gydgyfeirio Ewropeaidd (2007-2013), ynghyd â chanlyniadau archwiliadau ac unrhyw newidiadau yn ystod 2014-15 a 2015-16.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

17. COFNODION CYFARFOD Y GRŴP LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

17.1. GRŴP LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL – 10FED MEHEFIN 2016

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol oedd wedi'i gynnal ar 10^{fed} Mehefin, 2016.

17.2. COFNODION CYFARFOD Y PANEL GRANTIAU

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion cyfarfod y Panel Grantiau oedd wedi'i gynnal ar 27^{ain} Gorffennaf 2016.

18. COFNODION

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio oedd wedi'i gynnal ar 8^{fed} Gorffennaf, 2016 gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol